Department for Environment Food & Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG33359**

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – Ymateb y Llywodraeth

# Ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ynghylch newidiadau i eithriadau trwyddedu tynnu dŵr yng Nghymru a Lloegr: Awdurdodiadau Newydd

Hydref 2017

Environment Agency

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

OGL © Hawlraint y Goron ISBN digidol 978-1-78859-788-3

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, yn unol â thelerau Trwydded Llywodraeth Agored f.3. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu anfonwch e-bost i PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk
Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/consultations/water-abstraction-licensing-changes-to-exemptions-in-england-and-wales
Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn i Defra yn waterresources.consultations@defra.gsi.gov.uk neu i Lywodraeth Cymru yn water@wales.gsi.gov.uk
www.gov.uk/defra

## Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ....................................................................................4

1. Cyflwyniad ....................................................................................7

2. Yr ymgynghoriad....................................................................................11

2.1 Eithriadau....................................................................................12

2.2 Gweithgarwch tynnu dŵr arfaethedig....................................................................................16

2.3 Y broses gwneud cais....................................................................................18

2.4 Llifau nad oes modd eu defnyddio ....................................................................................19

2.5 Trwyddedau trosglwyddo ....................................................................................22

2.6 Trefniadau iawndal ....................................................................................203

2.7 Meysydd ymgynghori eraill ....................................................................................214

3. Y polisi terfynol....................................................................................225

3.1 Eithriadau ....................................................................................225

3.2 Dull trwyddedu cyffyrddiad ysgafn sy'n seiliedig ar risg....................................................................................236

3.3 Trwyddedu: y cyfnod gwneud cais a phenderfyniadau'r Rheoleiddiwr ....................................................................................258

3.4 Canllawiau i'r Rheoleiddiwr ar y broses gwneud cais....................................................................................269

3.5 Lleihau'r baich rheoleiddio cymaint â phosibl ....................................................................................30

3.6 Trefniadau iawndal ....................................................................................31

4. Yr Amserlen a'r Camau Nesaf ....................................................................................303

4.1 Amserlen weithredu....................................................................................303

4.2 Gwaith pellach i gyflawni'r polisi ....................................................................................303

_Toc492045826

# Crynodeb Gweithredol

Mae dŵr yn hanfodol i bobl a'r amgylchedd. Mae'n hollbwysig i'r economi ac i iechyd a chaiff ei ddefnyddio i gynhyrchu pŵer, rhedeg diwydiannau a thyfu bwyd. Felly, mae mynediad at gyflenwadau dŵr glân a diogel yn hanfodol i gymdeithas. Dyna pam mae Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr (y Rheoleiddiwr)[1] yn rheoleiddio'r drefn tynnu dŵr – y broses o dynnu dŵr o'r amgylchedd, megis afonydd neu ddŵr daear – drwy system drwyddedu.

O ganlyniad i'r galw cynyddol, croes am ddŵr, mae rhannau o Gymru a Lloegr eisoes yn wynebu straen dŵr. Mae'r galw cynyddol am ddŵr ymhlith tynwyr dŵr sydd wedi'u heithrio rhag y system drwyddedu yn gwaethygu'r sefyllfa hon. Disgwylir i heriau eraill, megis hinsawdd sy'n newid a thwf poblogaeth, gynyddu'r pwysau ar adnoddau dŵr ymhellach.

Mae system trwyddedu tynnu dŵr wedi bod ar waith ers y 1960au, ond, yn hanesyddol, mae rhai gweithgareddau tynnu dŵr wedi cael eu heithrio'n gyfreithlon rhag rheolaeth drwyddedu, a hynny'n bennaf am eu bod yn cael eu hystyried yn risg isel neu'n rhai anghyffredin. Wrth i fwy o wybodaeth ddod i'r golwg am y gweithgareddau tynnu dŵr sydd wedi'u heithrio, mae'r ffordd rydym yn asesu ac yn deall eu risg wedi gwella.

Ar hyn o bryd, mae tua 5,000 o weithgareddau tynnu dŵr ar raddfa sylweddol wedi'u heithrio rhag trwyddedu tynnu dŵr. Mae hyn yn cymharu â thua 20,000 o dynwyr dŵr sydd wedi'u trwyddedu. Mae'r eithriadau hyn yn creu annhegwch, gan ganiatáu i rai tynwyr dŵr roi pwysau ar yr amgylchedd a defnyddwyr dŵr eraill heb unrhyw reolaethau, tra bod yn rhaid i eraill ysgwyddo baich mynd i'r afael â'r risgiau hyn. Mae annhegwch o'r fath yn ennyn teimladau cryf, er enghraifft, mae'n ofynnol i ffermwyr sy'n defnyddio dull dyfrhau drwy chwistrellu gael trwydded tynnu dŵr ond nid oes rhaid i'r rhai sy'n defnyddio dull dyfrhau drwy ddiferion wneud hynny.

Roedd Deddf Dŵr 2003 yn cynnwys darpariaethau i ddileu'r eithriadau trwyddedu hyn yng Nghymru a Lloegr. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn helpu i ddiogelu'r amgylchedd dŵr ac yn sicrhau bod hawliau pobl i gymryd dŵr yn decach. Mae'r ddeddfwriaeth hon hefyd yn ein helpu i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a sefydlwyd yn 2000 er mwyn sicrhau bod Aelod-wladwriaethau'r UE yn rheoli eu hadnoddau dŵr.

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn ei gwneud yn ofynnol i bob Aelod-wladwriaeth roi rhaglen o fesurau ar waith gyda'r nod o gyflawni statws "Da" i gyrff dŵr. Un o'r gofynion sylfaenol i helpu i gyflawni statws "Da" yw rhoi system o awdurdodi ymlaen llaw a rheoli achosion o dynnu a chronni dŵr ar raddfa sylweddol. Er bod system drwyddedu wedi bod

[1] Fel arfer rydym yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd fel y Rheoleiddiwr yn y ddogfen hon.

ar waith gennym ers y 1960au, mae'r eithriadau y mae'n eu cynnwys o hyd yn cael effaith ar gyflawni statws "Da".

Ymgynghorwyd ynghylch cynnwys y gweithgareddau eithriedig hyn yn y system drwyddedu yn 2009 yn wreiddiol[2]. Yn dilyn yr ymatebion a gawsom, aethom ati i weithio gyda rhanddeiliaid i ymchwilio i'r materion a godwyd. Y llynedd, cyhoeddwyd ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw. Roedd hefyd yn cynnwys ymgynghoriad arall, a oedd yn angenrheidiol, yn ein barn ni, er mwyn ceisio barn unwaith eto ar nifer o faterion a oedd wedi newid ers 2009. Cafodd ymgynghoriad y llynedd ei lywio gan asesiad o'r effaith, a amcangyfrifodd y costau gweinyddol ac economaidd i dynwyr dŵr sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd pe bai'r eithriadau yn cael eu dileu.

Yn ystod ymgynghoriad y llynedd, cynigiwyd dull gweithredu cyffyrddiad ysgafn sy'n seiliedig ar risg er mwyn cynnwys gweithgareddau eithriedig o dan reolaeth drwyddedu. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- dim ond dileu eithriadau ar gyfer gweithgareddau defnyddio dŵr sy'n cael neu a allai gael effeithiau amgylcheddol sylweddol. Byddai sawl mil o weithgareddau tynnu a chronni dŵr heb effeithiau sylweddol yn parhau i fod wedi'u heithrio.
- byddai'r rhan fwyaf o dynwyr dŵr yn cael trwyddedau a fyddai'n adlewyrchu faint o ddŵr roeddent wedi'i dynnu'n flaenorol o dan yr eithriad, er y gall achosion godi lle y caiff amodau eu cynnwys i ddiogelu afonydd ar adeg llifau isel iawn.
- darparu cyfnod trosiannol sylweddol o bum mlynedd o'r dyddiad y daw'r eithriadau i ben: dwy flynedd i dynwyr dŵr baratoi a chyflwyno ceisiadau a thair blynedd i'r Rheoleiddiwr ystyried a phenderfynu ar geisiadau. Gallai tynwyr dŵr barhau i dynnu faint bynnag o ddŵr y maent yn ei dynnu ar hyn o bryd yn ystod y broses hon.

Cyhoeddwyd crynodeb o ymatebion ym mis Medi 2016[3].

O ganlyniad i'r ymateb i'r ymgynghoriad bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gwneud rhai newidiadau technegol i'r dull trwyddedu yr ymgynghorwyd yn ei gylch er mwyn sicrhau bod y broses o ddileu'r eithriadau, fel trefn reoleiddio, hyd yn oed yn fwy ysgafn ac yn seiliedig ar risg. Byddwn yn gwneud y canlynol:

- rhoi hyblygrwydd i'r Rheoleiddiwr lacio'r gofynion ar gyfer terfynau cyfeintiau ar drwyddedau trosglwyddo (mae angen trwyddedau trosglwyddo i drosglwyddo dŵr lle nad oes unrhyw ddefnydd rhyngol o'r dŵr) er mwyn osgoi costau rheoli tynwyr dŵr amhriodol i dynwyr dŵr a sicrhau diogelwch amgylcheddol ar yr un pryd;
- caniatáu i'r Rheoleiddiwr fod yn hyblyg o ran cymhwyso rheolaethau llif fel y gall gydnabod y gwerthoedd cadwraeth ehangach;

[2] http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20091205011114/http:/www.defra.gov.uk/corporate/consult/water-act/index.htm

[3] https://www.gov.uk/government/consultations/water-abstraction-licensing-changes-to-exemptions-in-england-and-wales

- caniatáu terfynau cyfeintiau sy'n adlewyrchu anghenion busnes yn ystod cyfnodau sych yn well drwy estyn y cyfnod cymhwyso i gynnwys y tywydd sych yn 2011.

Ymhellach i'r ymgynghoriad, rydym bellach yn nodi'r cynlluniau terfynol a gynigiwyd genym i newid eithriadau i'r system drwyddedu yng Nghymru a Lloegr drwy gychwyn darpariaethau Deddf Dŵr 2003. Diweddarwyd yr asesiad o'r effaith i lywio'r cynlluniau hyn. Mae ein cynlluniau yn cydbwyso anghenion y rhai sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd a hawliau a chyfrifoldebau pawb dros greu system trwyddedu tynnu dŵr gynaliadwy.

Byddwn yn gosod y rheoliadau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU erbyn diwedd y flwyddyn hon. Yna, daw newidiadau i'r eithriadau i rym ar 1 Ionawr 2018 ac ar y dyddiad hwnnw bydd y cyfnod o ddwy flynedd i wneud cais am drwydded yn agor.

Bydd y Rheoleiddiwr yn ymgysylltu ymhellach â phob sector ac yn paratoi canllawiau ar gyfer y cyfnod gwneud cais a thu hwnt.

# 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i'r ymgynghoriad â phartion â buddiant ar newidiadau i eithriadau trwyddedu tynnu dŵr yng Nghymru a Lloegr.

## 1.1 Pam newid yr eithriadau rhag trwyddedu tynnu dŵr?

Mae system trwyddedu tynnu dŵr wedi bod ar waith ers y 1960au. Mae'r system drwyddedu wedi datblygu ers hynny. Fodd bynnag, yn hanesyddol, mae rhai gweithgareddau tynnu dŵr wedi parhau i gael eu heithrio rhag rheolaeth drwyddedu am eu bod yn cael eu hystyried yn rhai risg isel neu na fu defnydd helaeth o'r gweithgarwch ers y 1960au.

Ar hyn o bryd, mae tua 5,000[4] o weithgareddau tynnu dŵr ar raddfa sylweddol wedi'u heithrio rhag trwyddedu tynnu dŵr yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn cymharu â thua 20,000 o weithgareddau tynnu dŵr sydd wedi'u trwyddedu.

Gall tynwyr dŵr wedi'u heithrio dynnu cyfeintiau diderfyn o ddŵr o bosibl, ni waeth faint o ddŵr sydd ar gael ac ni waeth beth fyddai'r effeithiau ar yr amgylcheddau neu dynwyr dŵr eraill. Mae'r eithriadau hyn yn annheg pan fo'r effeithiau yn gallu bod yn sylweddol. Maent yn caniatáu i rai tynwyr dŵr roi pwysau ar yr amgylchedd a defnyddwyr dŵr eraill heb unrhyw reolaethau, tra bod yn rhaid i eraill ysgwyddo baich mynd i'r afael â'r risgiau hyn. Gall hyn ddarwagio adnoddau dŵr a niweidio'r amgylchedd. Mae'n creu anghydbwysedd o ran lefelau cost a chyfrifoldeb a roddir ar dynwyr dŵr trwyddedig. At hynny, mae eithriadau yn ei gwneud yn anodd i'r Rheoleiddiwr reoli adnoddau dŵr yn effeithiol.

O ganlyniad i alw croes am fynediad at ddŵr i'w dynnu, mae rhannau o Gymru a Lloegr eisoes yn wynebu straen dŵr. Mae'r galw cynyddol am ddŵr ymhlith y rhai sydd y tu allan i'r system drwyddedu gyfredol yn gwaethygu'r sefyllfa hon. Disgwylir i heriau eraill, megis hinsawdd sy'n newid a thwf poblogaeth gynyddu'r pwysau ar adnoddau dŵr ymhellach.

Credwn y dylai pob tynnwr dŵr sylweddol fod yn ddarostyngedig i'r drefn reoleiddio er mwyn helpu i ddiogelu'r amgylchedd dŵr a sicrhau bod hawliau pobl i gymryd dŵr yn decach. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod tynwyr dŵr wedi'u heithrio wedi gweithredu'n gyfreithlon a'u bod yn dibynnu ar eu mynediad at ddŵr. Ein bwriad yw cydbwyso anghenion pob tynnwr dŵr a'r amgylchedd.

Roedd Deddf Dŵr 2003 yn cynnwys darpariaethau i ddileu eithriadau trwyddedu yng Nghymru a Lloegr. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ein helpu i fodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a sefydlwyd yn 2000 er mwyn sicrhau bod Aelod-wladwriaethau'r UE yn

---

[4] Tua 300 yng Nghymru a 4,700 yn Lloegr.

rheoli eu hadnoddau dŵr. Ar 23 Mehefin 2016, cynhaliwyd refferendwm yr UE a phleisleisiodd pobl y Deyrnas Unedig dros adael yr Undeb Ewropeaidd. Hyd nes y bydd y trafodaethau i adael wedi dod i ben, mae’r DU yn parhau i fod yn aelod llawn o’r Undeb Ewropeaidd ac mae’r holl hawliau a rhwymedigaethau sy’n gysylltiedig â bod yn aelod o’r UE yn parhau mewn grym. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y Llywodraeth yn parhau i drafod, gweithredu a chymhwyso deddfwriaeth yr UE. Bydd canlyniad y trafodaethau hyn yn penderfynu pa drefniadau fydd yn gymwys mewn perthynas â deddfwriaeth yr UE yn y dyfodol unwaith y bydd y DU wedi gadael yr UE.

Ymgynghorwyd ynghylch cychwyn y darpariaethau hynny a chynnwys y gweithgareddau eithriedig hyn o dan reolaeth drwyddedu yn 2009 yn wreiddiol. Yn dilyn yr ymatebion a gawsom, ymchwiliwyd i nifer o faterion ychwanegol a siaradwyd â rhanddeiliaid fel rhan o'r broses.

Ar 15 Ionawr y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd y ddogfen *‘Changes to water abstraction licensing exemptions’*[5]. Roedd yn cynnwys dwy ran:

- Roedd Rhan I yn cynnwys ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad gwreiddiol yn 2009 ar y polisi i weithredu'r elfennau olaf o Ddeddf Dŵr 2003 a oedd yn ymwneud â thynnu dwr er mwyn rhoi terfyn ar eithriadau i'r system trwyddedu tynnu dŵr bresennol;

- Roedd Rhan II yn cynnwys ymgynghoriad arall ar y polisi diwygiedig, gan adlewyrchu'r ymatebion i ymgynghoriad 2009, mwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid, a datblygiadau cysylltiedig ehangach o ran polisi a deddfwriaeth ers 2009.

Ymgynghoriad agored i Gymru a Lloegr ydoedd, gan barhau am 12 wythnos. Daeth i ben ar 8 Ebrill y llynedd. Cyflwynwyd 86 o ymatebion gan bartion â buddiant a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 26 Medi y llynedd.

Er mwyn ategu'r ymgynghoriad, cyhoeddwyd asesiad o effaith y polisi arfaethedig a'r ddeddfwriaeth ddrafft hefyd.

## 1.2 Nodau newid yr eithriadau

Bydd newid yr eithriadau yn gwneud y canlynol:

- helpu i greu system decach i bob tynnwr dŵr – y rhai sydd eisoes wedi'u trwyddedu a'r rhai y bydd yn rhaid iddynt gael trwydded pan ddaw'r eithriadau i ben;

[5] Ionawr 2016 – ‘Changes to water abstraction licensing exemptions – Government response to the 2009 consultation and further consultation on implementing the abstraction elements of the Water Act 2003’ https://consult.defra.gov.uk/water/water-abstraction-licensing-exemptions/consult_view

- galluogi'r Rheoleiddiwr i reoli adnoddau dŵr yn fwy effeithiol nawr ac mewn ymateb i bwysau cynyddol ar adnoddau dŵr yn y dyfodol;
- bod yn rhan o waith ehangach i roi'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar waith a chreu amgylchedd glanach ac iachach[6].

Mae sicrhau bod pob math o weithgarwch tynnu dŵr ar raddfa sylweddol yn ddarostyngedig i reoliadau yn rhan bwysg o gynlluniau i ddiwygio'r system drwyddedu. Bydd y broses ddiwygio yn sicrhau system drwyddedu fodern sy'n decach ac sy'n cynnwys datrysiadau lleol mwy gwydn. Caiff ein cynlluniau diweddaraf ar gyfer y broses ddiwygio eu nodi maes o law.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio er mwyn diwygio'r broses o reoli tynnu dŵr.

## 1.3 Asesu'r effaith

Mae'r sefyllfa bolisi yn y ddogfen hon wedi'i llywio gan asesiad o effaith[7]. Mae'r asesiad hwn o effaith yn diweddaru fersiwn ymgynghoriad Ionawr 2016[8].

## 1.4 Gweithio gyda phartïon â buddiant

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd gyfres o gyfarfodydd ymgynghori â phartïon â buddiant. Cynhaliwyd y cyfarfodydd er mwyn rhoi cyfle i gyfranogwyr ofyn am wybodaeth neu eglurhad pellach a rhoi sylwadau i ni ynghylch cynigion yr ymgynghoriad.

Cafodd y sylwadau hyn eu hystyried fel rhan o'r ddogfen ymateb hon. Mae gwaith ymgysylltu â'r tynwyr dŵr hyn yn mynd rhagddo o hyd.

---

[6] Er enghraifft, fel y nodir yng nghynllun adrannol cyfredol Defra: https://www.gov.uk/government/publications/defra-single-departmental-plan-2015-to-2020/single-departmental-plan-2015-to-2020 a'r cynllun 25 mlynedd arfaethedig ar gyfer yr amgylchedd. Yng Nghymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy

[7] Mae'r Asesiad Terfynol o Effaith yn ategu Gorchymyn Deddf Dŵr 2003 (Cychwyn Rhif 12) 2017, a gellir ei weld yn: http://www.legislation.gov.uk

[8] Ymgynghoriad Asesiad o Effaith: https://consult.defra.gov.uk/water/water-abstraction-licensing-exemptions/supporting_documents/Annex%20D%20%20Consultation%20Impact%20Assessment%20for%20New%20Authorisations.pdf

## 1.5 Y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn ymateb i'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ac yn nodi'r polisi terfynol ar gyfer y newidiadau i'r eithriadau trwyddedu tynnu a chronni dŵr. Rhennir gweddill y ddogfen yn adrannau fel a ganlyn:

- Adran 2 – ein hymatebion i'r pwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad
- Adran 3 – eglurhad o'n polisi arfaethedig terfynol ar gyfer newid eithriadau trwyddedu tynnu dŵr
- Adran 4 – eglurhad o'r hyn fydd yn digwydd nesaf o ran gwneud newidiadau i eithriadau trwyddedu tynnu dŵr

Yn y ddogfen hon ac at ddibenion y polisi hwn, cyfeirir yn aml at y tynwyr dŵr hynny sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd ac sy'n dod yn rhan o'r system drwyddedu yn 'Awdurdodiadau Newydd'.

# 2. Yr ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad *'Newidiadau i eithriadau trwyddedu tynnu dŵr'* yn egluro'r polisi arfaethedig a ddiwygiwyd ers ymgynghoriad 2009 ac yn ceisio barn ar feysydd penodol ac, yn fwy eang, y dull gweithredu arfaethedig.

Y cwestiynau penodol a ofynnwyd ynghylch y cynigion yn yr ymgynghoriad oedd:

- Eithriadau: y cyfnod addas ar gyfer yr eithriad tynnu dŵr dros dro (Cwestiwn 1);
- Gweithgarwch tynnu dŵr arfaethedig[9]: y dystiolaeth y gall fod ei hangen fel rhan o'r broses o wneud cais mewn perthynas â gweithgarwch tynnu dŵr arfaethedig (Cwestiwn 2); ac eithrio darpariaethau iawndal ar gyfer gweithgarwch tynnu dŵr arfaethedig o drefniadau trosiannol er mwyn cynnwys tynwyr dŵr sydd wedi'u heithrio yn y system drwyddedu (Cwestiwn 3); a barn ar y prif faterion neu heriau sy'n deillio o'r dull gweithredu arfaethedig mewn perthynas â gweithgarwch tynnu dŵr arfaethedig (Cwestiwn 4);
- Y broses gwneud cais: y dystiolaeth y byddai gofyn i dynnwr dŵr ei darparu fel rhan o'i gais am drwydded pan fydd ei eithriad priodol yn dod i ben (Cwestiwn 5);
- Amodau llif nad oes modd ei ddefnyddio: y cynnig polisi i gynnwys amod llif nad oes modd ei ddefnyddio ar drwyddedau er mwyn diogelu'r amgylchedd rhag achosion o dynnu dŵr pan fydd llif afonydd yn isel (Cwestiynau 6-10);
- Trwyddedau trosglwyddo: y cynnig i gynnwys cyfeintiau wedi'u hawdurdodi ar drwyddedau o'r fath (Cwestiwn 11);
- Iawndal: cynigion ar sut i ariannu unrhyw iawndal sy'n deillio o'r polisi (Cwestiynau 12-14).

Gofynnwyd hefyd am sylwadau cyffredinol ar y canlynol:

- y dull cyffredinol o weithredu'r polisi (Cwestiwn 15);
- sut y gallai fod yn bosibl lleihau unrhyw feichiau ar dynwyr dŵr ymhellach (Cwestiwn 16);
- yr ymgynghoriad yn gyffredinol (Cwestiwn 17).

Derbyniwyd 86 o ymatebion i'r ymgynghoriad a chyhoeddwyd crynodeb o'n hymatebion ar 29 Medi y llynedd.

---

[9] Mae 'gweithgarwch tynnu dŵr arfaethedig' yn cyfeirio at weithgareddau tynnu dŵr newydd arfaethedig nad ydynt yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, neu gynnydd arfaethedig yn nifer y gweithgareddau tynnu dŵr sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd a fydd yn mynd rhagddo ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym.

## 2.1 Eithriadau

Yn yr ymgynghoriad, nodwyd yr eithriadau a fyddai'n dod i ben a rhai eithriadau risg isel ychwanegol yr oeddem yn cynnig y byddent yn parhau. Eglurwyd mai un eithriad a fyddai'n parhau mewn grym oedd gweithgarwch dihysbyddu dros dro at ddibenion adeiladu. Gofynnwyd am safbwyntiau ynghylch hyd y cyfnod 'dros dro'.

**Yr hyn a gynigiwyd gennym:**

- eithriad ar gyfer dihysbyddu haenau tanddaearol dros dro;
- eithriad ar gyfer gweithgarwch tynnu dŵr a gyflawnir er mwyn dargyfeirio dŵr dros dro i'w atal rhag ymyrryd â gwaith adeiladu neu beirianneg.

Pan fo'r amodau canlynol yn berthnasol:

- pan nad yw'r gweithgarwch tynnu dŵr yn niweidio bywyd dyfrol a warchodir nac yn cael effaith andwyol ar uniondeb safle a ddynodwyd ar gyfer cadwraeth natur[10];
- pan ryddheir y dŵr ar unwaith i ffos gerrig, os yw'r dŵr yn dod o haenau tanddaearol, neu i ddyfroedd wyneb.

Yn achos dihysbyddu a lle na chaiff y dŵr a dynnir ei ryddhau ar unwaith i ffos gerrig:

(i) tynnir llai na 100m$^3$/diwrnod o ddŵr lle mae'r broses dynnu yn digwydd mwy na 500 metr o safle cadwraeth natur dynodedig a mwy na 250 metr i ffwrdd o ffynnon neu ddyfrdwll a ddefnyddir i gyflenwi dŵr i'w ddefnyddio at unrhyw ddiben cyfreithlon; neu

(ii) tynnir llai na 50m$^3$/diwrnod o ddŵr 500 metr neu lai o safle cadwraeth natur dynodedig, neu 250 metr neu lai o ffynnon neu ddyfrdwll a ddefnyddir i gyflenwi dŵr i'w ddefnyddio at unrhyw ddiben cyfreithlon.

Y cyfnodau amser posibl a awgrymwyd oedd: pedair wythnos; tri mis; chwe mis neu fwy na chwe mis.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid cyfnod o chwe mis neu lai. Roedd y rheini a oedd o blaid cyfnod hwy yn ymatebwyr a oedd yn ymwneud â gwaith peirianneg yn bennaf. Eglurwyd bod rhai prosiectau adeiladau yn para am fwy na chwe mis a nodwyd pryder y gallai hyn gynyddu'r baich rheoleiddio.

Rydym wedi ystyried yr ymatebion a'r dystiolaeth a roddwyd ac wedi dod i'r casgliad bod cyfnod dros dro o **chwe mis yn olynol** yn briodol. Deallwn y bydd y cyfnod hwn yn cwmpasu'r mwyafrif o waith peirianneg ac adeiladu ac felly'n lleihau unrhyw reoleiddio diangen ac yn osgoi niwed i'r amgylchedd neu dynwyr dŵr eraill. Mae gweithgarwch tynnu

[10] https://www.gov.uk/check-your-business-protected-area

dŵr dros gyfnod hwy yn cynyddu'r risg y bydd dirywiad ehangach i'r amgylchedd, a ddylai gael ei asesu fel rhan o'r broses drwyddedu. Mae'r penderfyniad hwn yn ystyried y mesurau diogelu a fydd ar waith ar gyfer yr amgylchedd a thynwyr dŵr yn yr eithriadau.

**Eithriad terfynol:**

Y broses o ddihysbyddu haenau tanddaearol a dŵr a dynnir o ddyfroedd wyneb er mwyn osgoi ymyrryd â gwaith adeiladu neu beirianneg yn unig, lle mae'r dŵr yn cael ei dynnu dros gyfnod o lai na chwe mis yn olynol, ar yr amod y gall y tynnwr dŵr ddangos y canlynol:

- nad yw'r gweithgarwch tynnu dŵr yn niweidio nac yn debygol o niweidiol rhywogaethau a warchodir nac uniondeb safle a ddynodwyd ar gyfer cadwraeth natur; a
- caiff y dŵr ei ryddhau ar unwaith i ffos gerrig, os yw'r dŵr yn dod o haenau tanddaearol, neu i ddyfroedd wyneb.

Yn achos dihysbyddu haenau tanddaearol a lle na chaiff y dŵr a dynnir ei ryddhau ar unwaith i ffos gerrig:

(iii) tynnir llai na 100m$^3$/diwrnod o ddŵr lle mae'r broses dynnu yn digwydd mwy na 500 metr o safle cadwraeth natur dynodedig a mwy na 250 metr i ffwrdd o ffynnon neu ddyfrdwll a ddefnyddir i gyflenwi dŵr i'w ddefnyddio at unrhyw ddiben cyfreithlon; neu

(iv) tynnir llai na 50m$^3$/diwrnod o ddŵr 500 metr neu lai o safle cadwraeth natur dynodedig, neu 250 metr neu lai o ffynnon neu ddyfrdwll a ddefnyddir i gyflenwi dŵr i'w ddefnyddio at unrhyw ddiben cyfreithlon (rheoliadau drafft 5 a 6).

**Awgrymiadau a wnaed ar gyfer eithriadau eraill**

Er bod cytundeb cyffredinol ynghylch y newidiadau i eithriadau a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad, awgrymodd rhai ymatebwyr weithgareddau eraill y dylent barhau i gael eu heithrio rhag trwyddedu.

Wrth benderfynu a ddylai gweithgaredd tynnu dŵr gael ei drwyddedu, rydym wedi ystyried a allai'r gweithgaredd hwnnw gael effaith sylweddol ar adnoddau dŵr, ac felly ganlyniadau niweidiol i'r amgylchedd neu dynwyr dŵr eraill.

Mae'r eithriadau a awgrymwyd a'r ymatebion i'r awgrymiadau hynny fel a ganlyn:

- Gweithgareddau ar raddfa fach

Credwn y dylai'r trothwy *de minimis*[11] ar gyfer trwyddedu tynnu dŵr barhau i fod yn seiliedig ar faint o ddŵr a dynnir. Trothwy yn seiliedig ar gyfaint yw'r ffordd fwyaf addas a theg o bennu trothwy adnoddau dŵr, o gymharu ag awgrymiadau eraill a wnaed fel y maes gweithgarwch busnes, gan fod modd ei gymharu â gweithgareddau trwyddedig eraill ac mae'n uniongyrchol gysylltiedig â'r effaith y gallai'r broses o dynnu dŵr ei chael ar yr amgylchedd dŵr.

- Dihysbyddu dŵr daear ynysedig neu ddŵr glaw sydd wedi casglu wrth ymgymryd â gwaith cloddio, chwarela neu waith peirianneg arall.

Lle y caiff dŵr daear ei ddihysbyddu[12], bydd angen trwydded lle y caiff dŵr ei dynnu o unrhyw haenau tanddaearol, p'un a ydynt wedi'u hynysu'n hydrolig ai peidio. Ystyrir p'un a yw dŵr daear yn rhyngweithio â ffynonellau dŵr eraill ac ym mha ffordd, a'r effaith y gall hyn ei chael ar yr amgylchedd a thynwyr dŵr eraill, wrth benderfynu p'un a oes angen trwydded tynnu dŵr.

Nid oes angen trwydded ar gyfer dihysbyddu dŵr glaw yn gyfan gwbl neu'n bennaf o waith cloddio.

- Cyrff cyhoeddus neu gyrff a ariennir yn gyhoeddus neu ymgymerwyr statudol neu gyrff â dyletswyddau statudol

Credwn y dylai'r darpariaethau trwyddedu tynnu dŵr fod yn gymwys i gyrff cyhoeddus. Y nod o ran dileu'r eithriadau hyn yw galluogi'r Rheoleiddiwr i gyflawni ei ddyletswyddau i reoli pob effaith sylweddol y gallai gweithgarwch tynnu dŵr ei chael ar adnoddau dŵr. Mae angen i lawer o dynwyr dŵr eraill (gan gynnwys cyrff cyhoeddus a'r Rheoleiddiwr) feddu ar drwydded tynnu dŵr neu bydd angen iddynt feddu ar y cyfryw drwydded ac mae'n rhaid iddynt hefyd gydymffurfio ag amryw o ddyletswyddau, trwyddedau a chaniatadau eraill, felly ni fyddai'n deg darparu eithriadau rhag trwyddedu tynnu dŵr i un corff ac nid un arall. Felly, nid ydym wedi darparu unrhyw eithriadau o'r fath.

- Byrddau Draenio Mewnol

Ni chredwn fod digon o dystiolaeth i gyflwyno achos dros eithrio pob gweithgarwch tynnu dŵr a gyflawnir gan Fyrddau Draenio Mewnol oherwydd y canlyniadau posibl i'r amgylchedd a thynwyr dŵr i lawr yr afon o'r man lle y caiff y dŵr ei dynnu. Fodd bynnag, credwn fod rheswm da dros eithrio rhai gweithgareddau, a dyna pam roedd Deddf Dŵr 2003 yn cynnwys darpariaethau i barhau i eithrio trosglwyddiadau o fewn ardaloedd draenio ac unrhyw weithgareddau draenio tir. Gwnaethom gynnig yn ein hymgynghoriad y dylai gwaith cronni dŵr o fewn ardaloedd draenio gael ei eithrio hefyd; a byddwn yn rhoi'r cynnig hwnnw ar waith.

---

[11] 20m$^3$/diwrnod fesul ffynhonnell gyflenwi ar hyn o bryd.

[12] Oni bai ei fod yn weithgarwch tynnu dŵr sydd wedi'i eithrio, er enghraifft, dihysbyddu dros dro.

- Dylid defnyddio rheoliadau eraill i ddiogelu'r amgylchedd felly nid oes angen trwyddedu.

Credwn yn gryf y dylai dŵr a dynnir o'r amgylchedd gael ei reoleiddio'n uniongyrchol lle y gallai gael effeithiau sylweddol er mwyn sicrhau bod digon o ddŵr ar gael i bobl a'r amgylchedd. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu nad ydym yn cydnabod yr angen, yn fwy eang, am ganiatadau gwahanol er mwyn rhyngweithio'n well, ac mae'r Llywodraeth yn parhau i gymryd camau i leihau beichiau rheoleiddio diangen. Pan gaiff eithriadau eu dileu ac os yw'n briodol, disgwyliwn i'r Rheoleiddiwr ddefnyddio unrhyw wybodaeth berthnasol a ddefnyddiwyd mewn caniatadau blaenorol i wneud ei benderfyniadau. Bydd hyn yn helpu i gysoni penderfyniadau cymaint â phosibl a sicrhau bod gwaith rheoleiddio yn gymesur, yn effeithiol ac yn ceisio'r effeithiau negyddol lleiaf posibl ar fusnesau.

- Tynnu dŵr mewn argyfwng (porthladdoedd)

Cytunwn y byddai'r gofynion trwyddedu yn amhriodol mewn argyfwng a byddwn yn cynnwys hyn fel eithriad.

- Tynnu dŵr o afonydd mordwyol a'i drosglwyddo i system ddŵr awdurdodau mordwyaeth

Ni chafodd afonydd mordwyol eu cynnwys yn y diffiniad o system ddŵr awdurdodau mordwyaeth yn Neddf Dŵr 2003. Rydym wedi adolygu'r senarios sy'n gysylltiedig ag afonydd mordwyol unwaith eto a chredwn na fyddai angen trwyddedau ar gyfer rhyngweithiadau goddefol o afonydd i gamlesi. Byddai angen trwydded lle y caiff camau bwriadol, fel strwythurau artiffisial, eu cymryd i ddargyfeirio dŵr o afon i mewn i gamlas, sef yr hyn a fwriedir gan Ddeddf Dŵr 2003.

Yn adran 3 isod, rhoddir rhestr lawn o'r eithriadau trwyddedu ychwanegol a gaiff eu gwneud.

## 2.2 Gweithgarwch tynnu dŵr arfaethedig

Mae ‘gweithgarwch tynnu dŵr arfaethedig' yn cyfeirio at weithgareddau tynnu dŵr newydd arfaethedig neu gynnydd arfaethedig yn nifer y gweithgareddau tynnu dŵr sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd.

**Yr hyn a gynigiwyd gennym:**

- Eithrio gweithgarwch tynnu dŵr arfaethedig o'r trefniadau trosiannol ar gyfer awdurdodiadau newydd (er mwyn sicrhau na all tynwyr dŵr wneud cais am 'weithgarwch tynnu dŵr arfaethedig' drwy'r broses gwneud cais trosiannol ar gyfer gweithgarwch tynnu dŵr sydd wedi'i eithrio ar hyn o bryd.
- Trwyddedu unrhyw gais am weithgarwch tynnu dŵr arfaethedig drwy'r broses safonol o wneud cais am drwydded tynnu dŵr.
- Eithrio gweithgarwch tynnu dŵr arfaethedig o'r trefniadau trosiannol ar gyfer iawndal hefyd (a all fod ar gael os gall tynnwr dŵr ddangos y byddai penderfyniad gan y Rheoleiddiwr i roi trwydded fwy cyfyngedig neu wrthod rhoi trwydded yn arwain at golled neu niwed).

Ym mhob sector, y prif fater a gododd ymatebwyr oedd bod llawer ohonynt wedi buddsoddi mewn gwaith ehangu neu'n rhagweld gwaith ehangu yn y dyfodol. Felly, byddai peidio â chynnwys y cynlluniau newydd hyn yn y trwyddedau newydd yn atal twf.

At hynny, nododd ymatebwyr fod rhai caniatadau ar gyfer gweithgareddau arfaethedig wedi ystyried yr effaith ar adnoddau dŵr eisoes ac felly roeddent yn cwestiynu'r angen am waith rheoleiddio pellach drwy gyfrwng trwyddedau.

Fodd bynnag, nododd ymatebwyr hefyd fod y cynnig yn sicrhau bod y broses yn deg i'r tynwyr dŵr trwyddedig hynny sy'n bwriadu tynnu mwy o ddŵr er mwyn cefnogi twf busnes. Byddai angen iddynt wneud cais i dynnu dŵr ychwanegol drwy'r broses gwneud cais safonol, ac ni fyddent yn derbyn iawndal pe bai eu cais yn cael ei wrthod.

Pe bai darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer gweithgarwch tynnu dŵr arfaethedig yn ein trefniadau trosiannol, byddai hynny'n golygu bod tynwyr dŵr a eithriwyd yn flaenorol mewn sefyllfa lawer mwy ffafriol na thynwyr dŵr trwyddedig. Byddai hefyd yn ein hatal rhag parhau i fabwysiadu dull cyffyrddiad ysgafn yn seiliedig ar risg, gan na allai cais, sy'n cynnwys gweithgarwch tynnu dŵr arfaethedig, gael ei ystyried yn amgylcheddol niwtral.

Hefyd, mae'r cyhoedd wedi gwybod am ein cynlluniau i ddod â'r eithriadau hyn i ben ac wedi bod yn eu disgwyl ers 2003. Dylai tynwyr dŵr fod wedi gallu paratoi ar gyfer hyn, a dylent fod wedi ystyried y sefyllfa yn eu cynlluniau busnes.

Deallwn pam y cafwyd ymatebion negyddol. Fodd bynnag, ni chredwn fod y rhain yn cyfiawnhau mabwysiadu dull gweithredu sy'n fwy manteisiol i dynwyr dŵr sydd wedi'u

heithrio ar hyn o bryd o gymharu â'r rheini sydd wedi'u trwyddedu. Credwn fod y dull gweithredu hwn yn deg ac yn rhesymol, gan ei fod yn trin pob tynnwr dŵr sy'n bwriadu tynnu dŵr ar sail gyfartal.

Felly, nid ydym wedi newid y dull gweithredu a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, nid ydym yn disgwyl i'r Rheoleiddiwr gyfyngu ar dwf economaidd cynaliadwy yn ddiangen ac felly byddwn yn cymhwyso egwyddorion gwell rheoleiddio[13] at y broses o drwyddedu gweithgarwch tynnu dŵr arfaethedig.

Disgwyliwn i'r Rheoleiddiwr ddefnyddio unrhyw wybodaeth berthnasol, megis adroddiadau amgylcheddol a ddefnyddiwyd fel tystiolaeth i gefnogi caniatadau eraill sydd eisoes ar waith ar gyfer gweithgarwch arfaethedig, er mwyn sicrhau bod ei benderfyniadau ynghylch trwyddedu gweithgarwch tynnu dŵr mor gyson â phosibl.

Rydym hefyd yn disgwyl i'r Rheoleiddiwr ddarparu ffurflenni cais sy'n caniatáu i dynwyr dŵr wneud cais i ymgymryd â gweithgareddau tynnu dŵr a eithriwyd yn flaenorol ar y cyd â gweithgarwch tynnu dŵr arfaethedig (amrywiadau i gynyddu), a sicrhau bod prosesau mewnol ar waith sy'n cysoni'r ddwy broses gwneud cais hyn ac yn ystyried anghenion busnes.

---

[13] Fel y nodwyd yn:

Ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru: https://naturalresources.wales/about-us/what-we-do/how-we-regulate-you/regulatory-principles/?lang=cy

Ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd: https://www.gov.uk/government/publications/regulators-code-and-the-environment-agency/how-the-environment-agency-meets-the-regulators-code

## 2.3 Y broses gwneud cais

**Yr hyn a gynigiwyd gennym:**

- Y gallai tystiolaeth o'r gweithgarwch tynnu dŵr sydd ei angen i gefnogi'r cais trwyddedu fod yn hyblyg ond y gallai gynnwys darlleniadau mesurydd, capasiti'r pwmp, anfonebau ar gyfer cyfarpar, lluniau o'r seilwaith, neu dderbynebau/contractau busnes.

Gofynnwyd am farn ynghylch mathau eraill o dystiolaeth y gellid eu darparu.

O ystyried y gwahanol fathau o weithgarwch tynnu dŵr ac amgylchiadau gweithredol, cynigiwyd y byddai'r Rheoleiddiwr yn hyblyg ynghylch y dystiolaeth o weithgarwch tynnu dŵr y byddai ei hangen fel rhan o'r broses gwneud cais. Daethom i'r casgliad y gall rhestr ddiffiniol o dystiolaeth berthnasol eithrio tystiolaeth berthnasol gan rai tynwyr dŵr.

Disgwyliwn i'r Rheoleiddiwr fabwysiadu dull hyblyg yn seiliedig ar risg o ran tystiolaeth. Dylai ceiswyr allu dangos, i foddhad rhesymol y Rheoleiddiwr, drwy gyfrwng y cais a thystiolaeth ategol, eu gofynion a'u hawliau tynnu dŵr a'r ffaith bod y dŵr wedi'i dynnu o fewn y cyfnod cymhwyso.

Bydd y Rheoleiddiwr yn llunio canllawiau ar y gofynion o ran tystiolaeth a fydd yn ystyried amrywioldeb arferion gwaith tynwyr dŵr, gan gynnwys sefyllfaoedd lle na chaiff faint o ddŵr a dynnir ei fesur.

Yn eu tro, disgwyliwn i dynwyr dŵr allu darparu digon o dystiolaeth i sicrhau bod y cais yn ddilys. Os oes gan dynwyr dŵr bryderon ynghylch y dystiolaeth y gellir ei defnyddio, ansawdd y dystiolaeth sydd ar gael, neu'r effeithiau posibl ar weithgareddau busnes cyfredol, argymhellwn yn gryf y dylent siarad â'r Rheoleiddiwr i drafod eu pryderon cyn gynted â phosibl yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd ar gyfer gwneud cais.

Mewn ymateb i'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, rydym hefyd wedi ymestyn y cyfnod cymhwyso. **Bydd gweithgarwch tynnu dŵr o fewn y saith mlynedd blaenorol yn gymwys.** Mae hyn wedi'i gynyddu o'r pedair blynedd a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i dynwyr dŵr, ac yn cwmpasu ystod ehangach o batrymau tywydd, er mwyn dangos gofynion tynnu dŵr.

## 2.4 Llifau nad oes modd eu defnyddio

**Yr hyn a gynigiwyd gennym:**

- Y gall y Rheoleiddiwr gymhwyso cyfyngiadau amgylcheddol i drwyddedau, heb dalu iawndal, er mwyn diogelu'r amgylchedd adeg llif isel ac yn ystod sychder. Bydd hyn yn gam tuag at sicrhau bod dŵr yn cael ei dynnu mewn ffordd gynaliadwy.

- Byddai'r Rheoleiddiwr yn gwneud hyn drwy gynnwys amod Llif Nad oes modd ei Ddefnyddio (HoF) mewn trwyddedau tynnu dŵr wyneb neu ddŵr daear lle mae llif afon yn dibynnu ar y dŵr daear[14] hwnnw, drwy wneud y canlynol:

  - Cynnwys HoF cyffredinol o Qn99 ar drwyddedau mewn dalgylchoedd y tynnir gormod o ddŵr ohonynt[15];

  - Cynnwys HoF cyffredinol o 75% o Qn99 ar drwyddedau mewn dalgylchoedd na thynnir gormod o ddŵr ohonynt.

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn cytuno y dylid defnyddio amodau llif nad oes modd ei ddefnyddio. Ymhlith y prif heriau a nodwyd roedd y posibilrwydd y gallai'r Rheoleiddiwr osod cyfyngiadau llym heb fod angen, gyda chanlyniadau ansicr i fusnesau.

---

[14] Mae amodau "llif nad oes modd ei ddefnyddio" (HoF) yn atal dŵr rhag cael ei dynnu pan fydd llif afon yn isel. Er enghraifft, gallai trwydded atal dŵr rhag cael ei dynnu pan fydd llif naturiol afon yn cyfateb i'r llif y rhagorir arno 95% o'r amser, neu'n is na hynny a byddai'r HoF hwn yn cael ei ysgrifennu fel Qn95 neu 75% o Qn99, sef ffurf law-fer 75% o'r llif naturiol y rhagorir arno 99% o'r amser.

Caiff yr amodau hyn eu cynnwys yn ôl disgresiwn y Rheoleiddiwr, yn dibynnu ar yr hyn sydd ei angen i ddiogelu'r amgylchedd. Fel arfer, pennir yr amodau ar Qn95 (neu amodau cyfatebol ar gyfer dŵr daear lle mae llif dyfroedd mewndirol yn dibynnu ar y dŵr daear hwnnw) mewn dalgylchoedd lle tynnir gormod o ddŵr ac nid yw'r llifau yn cefnogi amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Lle mae llifau cyfredol yn cefnogi amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr h.y. dalgylchoedd na thynnir gormod o ddŵr ohonynt, bydd 75% o Qn99 yn cael ei gymhwyso fel arfer.

[15] Tynnir gormod o ddŵr: mae llifau gwirioneddol diweddar yn is na'r dangosyddion llif amgylcheddol (EFI). EFI yw cyfran llif naturiol afon sydd ei angen er mwyn sicrhau iechyd ecolegol y cwrs dŵr ac fe'i defnyddir i atal dirywiad ecolegol. Mae'r dangosyddion hyn yn gyson â safonau statws da y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer afonydd.

Ar hyn o bryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn defnyddio Strategaethau Trwyddedu Tynnu Dŵr i asesu dalgylchoedd a sicrhau y cyflawnir amcanion Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd, sef rheoli gweithgarwch tynnu a chronni dŵr mewn ffordd gynaliadwy. I Loegr: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/562749/LIT_4892.pdf (tudalennau 9 i 15) a: https://www.gov.uk/government/collections/water-abstraction-licensing-strategies-cams-process sy'n nodi'r strategaethau rhanbarthol yn Lloegr. I Gymru: https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/water-available-in-our-catchments/?lang=cy – gweler y Strategaeth Trwyddedu Tynnu Dŵr ar gyfer y dalgylch perthnasol.

Yn y cyfamser, roedd ymatebwyr eraill, a oedd yn cytuno y dylid defnyddio'r mathau hyn o gyfyngiadau, o'r farn hefyd nad oeddent yn cael eu gosod ar lefel addas i sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu'n ddigonol. Roedd y sylwadau hyn yn ymwneud yn benodol â diffyg diogelwch ar gyfer dyfroedd wyneb na thynnir gormod o ddŵr ohonynt a dŵr daear nad oes cysylltiad rhyngddo â dŵr wyneb.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o'r farn bod yr amodau sylfaenol hyn ar gyfer llif nad oes modd ei ddefnyddio yn rhoi diogelwch sylfaenol i afonydd adeg llif isel ac yn ystod sychder ac yn gosod cyfrifoldeb cymesur ar dynwyr dŵr a fydd yn destun rheolaeth drwyddedu i leihau achosion anghynaliadwy o dynnu dŵr. Y nod yw bod yr amodau hyn yn fwy ffafriol i dynwyr dŵr sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd o gymharu â'r amodau a gymhwysir at drwyddedau ar gyfer gweithgarwch tynnu dŵr newydd gan fod y polisi yn cydnabod bod busnesau yn dibynnu ar y gweithgarwch tynnu dŵr hwn sy'n mynd rhagddo eisoes.

Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, credwn fod y cynigion yn sicrhau cydbwysedd teg rhwng targedu gwelliannau amgylcheddol uniongyrchol a chydnabod bod buddsoddiad wedi'i wneud yn seiliedig ar y dŵr sydd eisoes yn cael ei dynnu.

Felly, caiff penderfyniadau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar flaenoriaethau o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr neu ddeddfwriaeth amgylcheddol arall, yn ogystal â chostau anghymesur, eu hystyried ar gyfer y tynwyr dŵr hyn a eithriwyd yn flaenorol, yn yr un modd â phob tynnwr dŵr trwyddedig. Felly, rhennir y polisi yn ddau gam, sef cyflawni manteision amgylcheddol a bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Unwaith y caiff pob gweithgarwch tynnu dŵr sylweddol ei gynnwys yn y system drwyddedu, bydd y Rheoleiddiwr yn sicrhau unrhyw welliannau pellach sydd eu hangen drwy ystyried y sefyllfa gyffredinol o ran tynnu dŵr mewn dalgylch, er mwyn cyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen i gyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr mewn perthynas â'r corff dŵr.

Fodd bynnag, o'r sylwadau a ddaeth i law, rydym yn cydnabod y gallai'r penderfyniad i gymhwyso'r amodau sylfaenol hyn yn gyffredinol achosi niwed i'r amgylchedd mewn rhai amgylchiadau, a hynny'n groes i'r disgwyl. Felly, nid ydym yn disgwyl i'r Rheoleiddiwr gymhwyso llifau nad oes modd eu defnyddio yn gyffredinol.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn disgwyl i'r Rheoleiddiwr helpu tynwyr dŵr i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio ag amodau llif nad oes modd ei ddefnyddio ac i sicrhau bod y broses o gydymffurfio yn gymharol syml.

**Tabl 1 – crynodeb o'r ffordd y cynigiwn y bydd amodau HoF yn cael eu cymhwyso fel arfer**

| Statws dŵr wyneb mewn strategaeth trwyddedu tynnu dŵr (ALS/CAMS): | Llif / statws meintiol yn cefnogi amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr | HoF AMau a gymhwysir: |
|---|---|---|
| Dim dŵr ar gael / Dalgylchoedd y tynnir gormod o ddŵr ohonynt | Methu | Qn95 |
| Swm cyfyngedig o ddŵr ar gael / Dalgylchoedd â gormod o drwyddedau | Llwyddo | 75% o Qn99 |
| Dŵr ar gael | Llwyddo | 75% o Qn99 |

## 2.5 Trwyddedau trosglwyddo

**Yr hyn a gynigiwyd gennym:**

- Cynnwys amodau sy'n ymwneud â chyfaint ar drwyddedau trosglwyddo.

Bydd y mwyafrif o weithgareddau tynnu dŵr sydd wedi'u heithrio (yr amcangyfrif bod 4,000 ohonynt) a ddaw'n drwyddedadwy yn Lloegr yn ymwneud â throsglwyddo dŵr. Byddem yn disgwyl i'r Rheoleiddiwr gyflwyno trwyddedau trosglwyddo[16] ar gyfer y trosglwyddiadau hyn er mwyn cyflawni'r amcanion polisi o gynnal hawliau a hawliadau presennol lle y bo modd. Yng Nghymru, disgwylir i drosglwyddiadau dŵr gyfrif am gyfran lai o weithgareddau a eithrir nag yn Lloegr. Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn rhoi disgresiwn i'r Rheoleiddiwr benderfynu a ddylid cynnwys rheolaethau'n ymwneud â chyfeintiau ar drwyddedau trosglwyddo.

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i gynnwys amodau sy'n ymwneud â chyfeintiau ar drwyddedau trosglwyddo. Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn bod angen pennu cyfeintiau er mwyn gallu monitro a rheoli'r dŵr a dynnir.

Roedd y sawl a oedd yn anghytuno yn arddel y farn honno'n bennaf am fod y dŵr a dynnir ganddynt yn anodd ei fesur neu ei reoli.

Yn dilyn ein hadolygiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi dod i'r casgliad nad yw ychwanegu cyfyngiadau o ran cyfeintiau at drwyddedau trosglwyddo dŵr bob amser yn lleihau'r risg i'r amgylchedd a'i fod yn gallu arwain at gostau busnes diangen. Felly, rydym wedi diwygio'r hyn a gynigir yn yr ymgynghoriad.

**Bydd gan y Rheoleiddiwr yr hyblygrwydd i gynnwys amodau o ran cyfeintiau ar drwydded trosglwyddo.** Fodd bynnag, dylai'r penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid gwneud hynny fod yn gymesur, a dylai adlewyrchu'r risg i'r amgylchedd, yr effaith ar dynwyr dŵr eraill a'r baich y mae'n ei osod ar y tynnwr dŵr. Yn benodol, mewn sefyllfaoedd lle na chaiff y dŵr a dynnir ei fesur ar hyn o bryd a/neu lle na chaiff ei reoli'n hawdd a lle mae ffyrdd amgen boddhaol o reoli'r dŵr a dynnir, er enghraifft amodau sy'n disgrifio'r defnydd o strwythurau tynnu dŵr, disgwyliwn i'r Rheoleiddiwr ddefnyddio dull trwyddedu sy'n lleihau'r baich rheoleiddio ar y tynnwr dŵr cymaint â phosibl. Bydd y newid hwn o'r hyn a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad yn lleihau costau rheoleiddio ac yn sicrhau canlyniadau tebyg, sef trwyddedau sy'n adlewyrchu gofynion tynnu dŵr ac sy'n atal effeithiau ychwanegol ar yr amgylchedd.

[16] Mae angen 'trwydded drosglwyddo' i symud dŵr o un ffynhonnell gyflenwi i un arall, neu i ran arall o'r un ffynhonnell gyflenwi, wrth ymgymryd â gweithgareddau dihysbyddu mewn cysylltiad â gwaith cloddio, chwarela, peirianneg, adeiladu neu weithrediadau eraill, heb unrhyw ddefnydd yn y cyfamser.

## 2.6 Trefniadau iawndal

**Yr hyn a gynigiwyd gennym:**

Defnyddio elfen tâl iawndal cynllun taliadau tynnu dŵr y Rheoleiddiwr (Tâl Uned Gwella Amgylcheddol - EIUC) i ariannu unrhyw iawndal, ac yn benodol:

- Defnyddio arian EIUC a gasglwyd eisoes, nad oes ei angen mwyach o bosibl ar gyfer cwblhau'r rhaglen Adfer Dulliau Cynaliadwy o Dynnu Dŵr, i ariannu unrhyw iawndal a all godi o weithredu Awdurdodiadau Newydd.
- Casglu arian ychwanegol, os oes angen, drwy'r EIUC gan y sawl nad ydynt yn talu taliadau i gwmnïau dŵr, er mwyn talu unrhyw iawndal ychwanegol a nodir o dan Awdurdodiadau Newydd.

Bydd y polisi yr ymgynghorwyd arno yn caniatáu i geiswyr wneud hawliadau am iawndal mewn amgylchiadau penodol lle gall ceisydd cymwys ddangos bod colled neu niwed wedi digwydd o ganlyniad i'r ffaith bod y Rheoleiddiwr naill ai wedi rhoi trwydded nad yw'n cwmpasu'r holl weithgarwch tynnu dŵr yr oedd y ceisydd yn ymgymryd ag ef yn flaenorol neu wedi gwrthod rhoi trwydded. Cynigiwn y dylid defnyddio elfen iawndal gyfredol cynllun taliadau tynnu dŵr y Rheoleiddiwr (Tâl Uned Gwella Amgylcheddol - EIUC) i ariannu unrhyw iawndal.

Roedd y mwyafrif a ymatebodd i'r cynnig hwn yn ffafrio defnyddio arian iawndal a gasglwyd eisoes neu gasglu arian ychwanegol, pe bai angen, drwy'r tâl iawndal er mwyn talu unrhyw hawliadau iawndal. Roedd tynwyr dŵr sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd yn cefnogi'r dull gweithredu hwn. Nid oedd y tynwyr dŵr hynny sydd wedi'u trwyddedu eisoes ac sydd wedi bod yn talu i mewn i'r gronfa iawndal o blaid y cynnig.

Roedd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr o'r farn mai dim ond ar gyfer y rhaglen Adfer Dulliau Cynaliadwy o Dynnu Dŵr, sef y diben gwreiddiol, y dylid defnyddio'r arian a gasglwyd hyd yma, ac y dylid ad-dalu'r gweddill.

Fodd bynnag, mae polisi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn nodi bod modd i'r Rheoleiddiwr ddefnyddio cynlluniau codi tâl i adennill y costau yr eir iddynt ar gyfer swyddogaethau rheoleiddio perthnasol. O ystyried y ffaith bod y ddwy Lywodraeth wedi penderfynu bod costau iawndal yn rhan o swyddogaeth rheoli adnoddau dŵr y Rheoleiddiwr, dylai costau'r polisi hwn gael eu hadennill hefyd gan dynwyr dŵr drwy gynllun codi tâl y Rheoleiddiwr yn yr un modd â chostau eraill. Felly, yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn parhau i ddefnyddio'r trefniadau iawndal fel y'u nodir yn yr ymgynghoriad.

Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ystyried cynnig cymorth penodol i Cyfoeth Naturiol Cymru os bydd costau iawndal yn mynd yn fwy na'r hyn y gall y sefydliad ei dalu'n rhesymol o'i incwm adnoddau dŵr.

## 2.7 Meysydd ymgynghori eraill

Gofynnwyd tri chwestiwn arall ar y canlynol:

- unrhyw sylwadau ar y dull cyffredinol o weithredu Awdurdodiadau Newydd;
- sut y gallai fod yn bosibl lleihau unrhyw feichiau ar dynwyr dŵr ymhellach drwy'r polisi a ddilynir;
- yr ymgynghoriad cyffredinol.

Mae'r holl sylwadau i'r cwestiynau hyn wedi'u hystyried a'u trafod ag ymatebwyr wrth i ni bennu'r polisi terfynol. Mewn llawer o achosion, rydym wedi diwygio'r polisi terfynol fel yr eglurir yn adran 3.

Er enghraifft, mynegwyd pryderon ynghylch y dull gweithredu cyffredinol a nodwyd a oedd yn defnyddio cyfnod cymhwyso o bedair blynedd o ran gweithgarwch tynnu dŵr blaenorol, gan nad oedd yn rhoi ystyriaeth ddigonol i amrywioldeb patrymau tywydd dros amser. Yn sgil ystyriaeth a thrafodaeth bellach gyda rhai ymatebwyr, rydym wedi cynyddu'r cyfnod i saith mlynedd.

Gofynnodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr a'r Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd am eglurhad pellach ynghylch sut y dylid cymhwyso'r ddarpariaeth Niwed Difrifol a chanllawiau ar sut i'w defnyddio. Mae'r egwyddorion y byddai'r Rheoleiddiwr yn eu defnyddio i asesu niwed difrifol wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2012 ac ymateb y Llywodraeth i'r mater[17]. Fel yr eglurwyd yn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2016, os yw'r gweithgarwch tynnu dŵr yn effeithio ar safle Ewropeaidd a ddynodwyd o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, neu os yw'n bosibl y gallai effeithio ar safle o'r fath, bydd y Rheoleiddiwr yn cymhwyso'r egwyddor ragofalus wrth benderfynu ar niwed difrifol. Golyga hyn y byddai gweithgarwch tynnu dŵr yn cael ei gyfyngu er mwyn diogelu safle a warchodir rhag niwed difrifol pe na bai gan y Rheoleiddiwr ddigon o dystiolaeth i ddangos na fyddai'r gweithgarwch yn cael unrhyw effaith andwyol arno.

[17] Ymgynghoriad 2012 ar Niwed Difrifol: https://www.gov.uk/government/consultations/the-water-act-2003-withdrawal-of-compensation-on-the-grounds-of-serious-damage

# 3. Y polisi terfynol

Mae ein polisi terfynol yn ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a'n hasesiad ohonynt fel y nodir yn adran 2.

### 3.1 Eithriadau

Gallwn gadarnhau mai'r eithriadau a fydd yn dod i ben yw:

- trosglwyddo dŵr o un corff o ddŵr mewndirol i gorff arall yn ystod gweithrediadau neu o ganlyniad i weithrediadau a gyflawnir gan awdurdod mordwyaeth, harbwr neu gadwraeth;
- tynnu dŵr i ardaloedd draenio mewnol heb gynnwys gweithgareddau draenio tir;
- dihysbyddu mwyngloddiau, chwareli a gwaith peirianneg, lle mai dŵr daear yw'r dŵr yn bennaf yn hytrach na glaw;
- dyfrleidio (tynnu dŵr sy'n cynnwys silt i'w ddyddodi ar dir amaethyddol fel bod y silt yn gweithredu fel gwrtaith);
- pob math o ddyfrhau (ar wahân i ddyfrhau drwy chwistrellu, sydd eisoes yn drwyddedadwy), a'r defnydd o systemau draenio tir i'r gwrthwyneb (gan gynnwys trosglwyddiadau i systemau gwlyptir a reolir) er mwyn cynnal lefelau dŵr caeau;
- tynnu dŵr mewn ardaloedd sydd wedi'u heithrio'n ddaearyddol ar hyn o bryd, gan gynnwys rhai afonydd yn agos at y ffin â'r Alban;
- y rhan fwyaf o weithgareddau tynnu dŵr a gwmpesir gan y Goron ac eithriadau sy'n gysylltiedig â lluoedd sy'n ymweld.

Bydd y trothwy trwyddedu arferol yn gymwys. Yn sgil hynny, dim ond y rheini sy'n tynnu mwy nag 20m³/dydd o ddŵr o ffynhonnell gyflenwi fydd angen gwneud cais am drwydded tynnu dŵr unwaith y bydd yr eithriadau hyn yn dod i ben.

Byddwn hefyd yn creu eithriadau newydd ar gyfer rhai gweithgareddau tynnu a chronni dŵr risg isel[18]. Gallwn gadarnhau mai'r rhain fydd:

- dŵr a dynnir (a drosglwyddir) i lawr yr afon o derfyn arferol y llanw gan awdurdodau mordwyaeth, harbwr a chadwraeth, ar wahân i'r awr cyn neu ar ôl llanw isel;

[18] Mae asesiad priodol at ddibenion rheoliad 99(1)(c) o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 wedi'i baratoi ar gyfer: tynnu dŵr heli ar gyfer porthladdoedd a harbyrau; tynnu dŵr mewn perthynas â gweithrediadau treillio; tynnu dŵr hallt iawn o haenau tanddaearol ym masn Swydd Gaer (rhan o eithriad a roddwyd eisoes i hen Awdurdod Afonydd Mersi a Weaver yn 1968); a gwaith cronni a wnaed gan Fyrddau Draenio Mewnol neu ar eu rhan er mwyn cyflawni eu swyddogaethau yn eu hardaloedd penodedig. Efallai y bydd angen caniatâd y Rheoleiddiwr ar gyfer eithriadau nas cwmpesir gan yr asesiadau hyn o dan reoliad 99(2) o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.

- dŵr a dynnir mewn perthynas â gweithrediadau treillio a awdurdodir gan awdurdod wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol mewn perthynas â'r dyfroedd hynny i fyny'r afon o derfyn arferol y llaw ac unrhyw ddŵr a dynnir i lawr yr afon o derfyn arferol y llanw;

- dŵr a dynnir o fewn systemau gwlyptir a reolir (yn amodol ar drwyddedu'r prif weithgarwch tynnu dŵr i mewn i'r system) a gwaith cronni at ddiben rheoli, gweithredu neu gynnal dŵr o fewn systemau gwlyptir a reolir yn unig;

- dŵr hallt iawn a dynnir o haenau tanddaearol ym masn Swydd Gaer (rhan o eithriad a roddwyd eisoes i hen Awdurdod Afonydd Mersi a Weaver yn 1968);

- gwaith cronni a wnaed gan Fyrddau Draenio Mewnol neu ar eu rhan er mwyn cyflawni eu swyddogaethau o fewn eu hardal benodedig;

- dihysbyddu haenau tanddaearol a dŵr a dynnir o ddyfroedd wyneb er mwyn osgoi ymyrryd â gwaith adeiladu neu beirianneg, lle mae'r dŵr yn cael ei dynnu dros gyfnod o lai na chwe mis yn olynol (yn amodol ar gyfyngiadau[19]);

- dociau sych a weithredir gan drydydd partïon sy'n trosglwyddo dŵr o system ddŵr awdurdod mordwyo ac oddi yno;

- gwaith cronni sydd ei angen mewn argyfwng;

- gweithgarwch tynnu neu gronni dŵr a wneir gan awdurdodau porthladd, harbwr neu gadwraeth mewn argyfwng.

### 3.2 Dull trwyddedu cyffyrddiad ysgafn sy'n seiliedig ar risg

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn disgwyl i'r Rheoleiddiwr fabwysiadu dull cyffyrddiad ysgafn sy'n seiliedig ar risg wrth drwyddedu'r gweithgareddau tynnu dŵr hyn. Mae dull cyffyrddiad ysgafn sy'n seiliedig ar risg yn golygu:

- Y caiff y mwyafrif o drwyddedau eu rhoi yn seiliedig ar ofynion tynnu dŵr sy'n bodoli eisoes. Dylai ceiswyr allu dangos, i foddhad rhesymol y Rheoleiddiwr, eu gofynion a'u hawliau tynnu dŵr a'r ffaith bod y dŵr wedi'i dynnu o fewn y cyfnod cymhwyso o saith mlynedd.

- Fel arfer, bydd trwyddedau yn cynnwys amodau "llif nad oes modd ei ddefnyddio"[20] er mwyn diogelu afonydd adeg llif isel ac yn ystod sychder lle mae'r amodau hyn o fudd i'r amgylchedd.

---

[19] Gweler Rheoliadau Tynnu a Chronni Dŵr (Eithriadau) 2017. Gellir gweld y Rheoliadau yn: http://www.legislation.gov.uk/

[20] Neu amodau cyfatebol ar gyfer dŵr daear lle mae llif dŵr mewndirol yn dibynnu ar y dŵr daear hwnnw.

- Bydd gan y Rheoleiddiwr yr hyblygrwydd i gynnwys amodau'n ymwneud â chyfeintiau ar drwyddedau trosglwyddo er mwyn osgoi costau rheoli tynnu dŵr diangen i dynwyr dŵr a sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu[21].

Disgwylir mai dim ond er mwyn diogelu'r amgylchedd rhag niwed difrifol y caiff gweithgareddau tynnu dŵr cyfreithlon eu cwtogi'n sylweddol neu eu gwrthod[22]. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau eithriadol, gellir gwrthod ceisiadau neu gyfyngu ar yr hyn y gwneir cais amdano am resymau heblaw am niwed difrifol, fel diogelu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig rhag niwed, ond nid yw'r Rheoleiddiwr yn ystyried bod y niwed hwn yn niwed difrifol. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai tynwyr dŵr yn gallu gwneud cais am iawndal. Disgwyliwn i'r Rheoleiddiwr ymdrin â'i weithgareddau tynnu dŵr ei hun a fydd yn drwyddedadwy yn yr un ffordd.

Er mwyn cefnogi'r dull hwn o weithredu yn Lloegr, bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi cyfarwyddyd i Asiantaeth yr Amgylchedd a fydd yn berthnasol i weithgareddau tynnu dŵr cyfreithlon sy'n gymwys ar gyfer y trefniadau trosiannol[23]. Bydd y cyfarwyddyd yn cydnabod nad yw rhoi trwydded ar gyfer yr holl weithgarwch tynnu dŵr sy'n mynd rhagddo eisoes yn newid yr effaith amgylcheddol nac yn arwain at fwy o niwed ynddo'i hun. Ni fydd y cyfarwyddyd yn diddymu dyletswyddau presennol Asiantaeth yr Amgylchedd, y disgwylir i'r sefydliad eu cyflawni o hyd, nac yn effeithio ar ei asesiad annibynnol o geisiadau trwyddedu unigol.

Yn Lloegr, disgwyliwn i Natural England gydnabod bod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi'i chyfarwyddo yn y cyfryw fodd a darparu cyngor yn unol â hynny.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod deddfwriaeth a gyflwynwyd yng Nghymru yn ddiweddar yn ddigonol i gefnogi dull cyffyrddiad ysgafn sy'n seiliedig ar risg o drwyddedu gweithgarwch tynnu dŵr sy'n gymwys ar gyfer y trefniadau trosiannol, heb roi cyfarwyddyd i Cyfoeth Naturiol Cymru[24].

---

[21] Gallai amodau gynnwys, er enghraifft, fanylion y strwythur tynnu dŵr, a fyddai'n atal newidiadau i'r strwythur hwnnw er mwyn caniatáu mwy o weithgarwch tynnu dŵr.

[22] Nodir yr egwyddorion y byddai'r Rheoleiddiwr yn eu defnyddio i asesu niwed difrifol yn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2012 ac ymateb y Llywodraeth: https://www.gov.uk/government/consultations/the-water-act-2003-withdrawal-of-compensation-on-the-grounds-of-serious-damage. Fel yr eglurwyd yn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2016, os yw'r gweithgarwch tynnu dŵr yn effeithio ar safle Ewropeaidd, neu os yw'n bosibl y gallai effeithio ar safle o'r fath, bydd y Rheoleiddiwr yn cymhwyso'r egwyddor ragofalus wrth asesu'r risg y ceir niwed difrifol.

[23] Tynwyr dŵr sydd wedi'u heithrio sydd wedi tynnu dŵr yn ystod y saith mlynedd cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym.

[24] Sicrhaodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 fod y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth wraidd y ffordd y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru gyflawni ei weithgareddau mewn modd sy'n gyson â'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, ymhlith saith nod llesiant Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'r amcan o hyrwyddo busnesau llwyddiannus a chyfrifol sy'n defnyddio adnoddau naturiol heb eu niweidio.

Mae'r ddwy Lywodraeth yn disgwyl y bydd y Rheoleiddiwr yn rhoi trwyddedau â therfyn amser i'r dyddiad gorffen cyffredin perthnasol[25] fel arfer, yn unol â'i ddatganiad trwyddedu cyhoeddedig[26]. Unwaith y caiff y gweithgarwch tynnu dŵr hwn ei drwyddedu, caiff ei drin fel unrhyw weithgarwch tynnu dŵr trwyddedig arall. Er y bydd terfynau amser yn cael eu pennu ar gyfer y trwyddedau a roddir, mae'r ddwy Lywodraeth yn bwriadu diddymu'r terfynau amser hyn yn raddol fel rhan o'r gwaith o ddiwygio'r drefn tynnu dŵr.

Caiff darpariaethau codi tâl ar gyfer tynwyr dŵr a eithriwyd yn flaenorol eu cynnwys yng nghynlluniau codi tâl y Rheoleiddiwr, fel y gellir eu diwygio[27].

### 3.3 Trwyddedu: y cyfnod gwneud cais a phenderfyniadau'r Rheoleiddiwr

Bydd gan dynwyr dŵr gyfnod o ddwy flynedd i wneud cais am eu trwyddedau. Bydd y Rheoleiddiwr yn penderfynu ar yr holl geisiadau o fewn tair blynedd i ddiwedd y cyfnod o ddwy flynedd a ganiateir ar gyfer gwneud cais.

Disgwylir i dynwyr dŵr ddarparu digon o dystiolaeth o weithgarwch tynnu dŵr hanesyddol i gefnogi cais dilys. Os na all y sawl sy'n gwneud cais am drwydded ddangos bod gweithgarwch tynnu dŵr wedi digwydd yn ystod y cyfnod cymhwyso, bydd angen iddynt wneud cais drwy'r broses drwyddedu safonol[28]. Gallai'r dystiolaeth gynnwys darlleniadau mesurydd, capasiti'r pwmp, cyfrifiadau o'r cyfeintiau a dynnwyd, anfonebau ar gyfer cyfarpar, lluniau o'r seilwaith neu dderbynebau/contractau busnes.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall fod gan dynwyr dŵr dystiolaeth arall sy'n dangos, er boddhad y Rheoleiddiwr, fod y gweithgarwch tynnu dŵr sy'n mynd rhagddo yn bodloni'r

---

[25] Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Rheoleiddiwr roi trwyddedau hirdymor (hyd at 24 mlynedd) os bodlonir rhai profion penodol. Fodd bynnag, oherwydd y bwriad i ddiddymu terfynau amser yn raddol fel rhan o'r gwaith o ddiwygio'r drefn tynnu dŵr, a'r dystiolaeth ychwanegol sydd ei hangen ar geiswyr i gefnogi ceisiadau dilys am drwyddedau hirdymor, nid ydym yn disgwyl i fwy o geisiadau gael eu gwneud am drwyddedau hirdymor nac i fwy o drwyddedau hirdymor gael eu rhoi gan y Rheoleiddiwr, ar y cyfan.

[26] Cymru: https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/water-available-in-our-catchments/?lang=cy a Lloegr: https://www.gov.uk/government/collections/water-abstraction-licensing-strategies-cams-process

[27] Gellir gweld y cynlluniau codi tâl cyfredol ar wefannau Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

[28] Fel y nodir yn Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Tynnu a Chronni Dŵr) 2006 (http://www.legislation.gov.uk/uksi/2006/641/contents/made. Mewn rhai achosion, mae hyn yn debygol o olygu trwyddedau â mynediad mwy cyfyngedig at y dŵr sy'n golygu na ellir tynnu dŵr nes bod trwydded wedi'i rhoi.

Yng Nghymru: https://naturalresources.wales/apply-for-a-permit/water-abstraction-licences-and-impoundment-licences/?lang=cy neu yn Lloegr: https://www.gov.uk/guidance/water-management-apply-for-a-water-abstraction-or-impoundment-licence

gofynion tynnu dŵr presennol. Felly, disgwyliwn i'r Rheoleiddiwr fod yn hyblyg wrth ystyried pa dystiolaeth sy'n addas i gefnogi ceisiadau.

Bydd y Rheoleiddiwr yn defnyddio ei drefniadau trwyddedu safonol er mwyn ystyried gweithgarwch tynnu dŵr newydd neu weithgarwch tynnu dŵr ychwanegol. Ni thelir unrhyw iawndal os caiff y ceisiadau hyn am drwydded eu gwrthod neu os na chânt eu rhoi'n llawn.

Unwaith y bydd y rheoliadau mewn grym, dylai tynwyr dŵr sy'n dymuno ymgymryd â gweithgarwch tynnu dŵr newydd neu dynnu mwy o ddŵr na'r hyn y maent yn ei wneud ar hyn o bryd wneud cais gan ddefnyddio'r ffurflen briodol a ddarperir gan y Rheoleiddiwr. Rydym yn disgwyl i'r Rheoleiddiwr ddarparu ffurflenni cais sy'n caniatáu i dynwyr dŵr wneud cais i ymgymryd â gweithgareddau tynnu dŵr a eithriwyd yn flaenorol ar y cyd â gweithgarwch tynnu dŵr arfaethedig (amrywiadau i gynyddu'r gweithgarwch), a sicrhau bod prosesau mewnol ar waith sy'n cysoni'r ddwy broses gwneud cais hyn ac yn ystyried anghenion busnes.

Heblaw am y terfynau amser ar gyfer gwneud ceisiadau am drwyddedau a gwneud penderfyniadau arnynt, bydd y broses o ddelio â cheisiadau am drwyddedau gan dynwyr dŵr presennol a gaiff eu cynnwys yn y system drwyddedu yn debyg, yn y rhan fwyaf o ffyrdd eraill, i'r prosesau y mae angen eu dilyn o dan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Tynnu a Chronni Dŵr) 2006. Byddai taliadau tynnu dŵr safonol y Rheoleiddiwr yn gymwys hefyd.

### 3.4 Canllawiau i'r Rheoleiddiwr ar y broses gwneud cais

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn disgwyl i'r Rheoleiddiwr ddarparu canllawiau fel rhan o'r broses gwneud cais. Bydd y canllawiau hyn yn rhoi eglurhad ynghylch y nifer o drwyddedau y dylid gwneud cais amdanynt a'r mathau o drwyddedau sydd ar gael. Y Rheoleiddiwr sydd yn y sefyllfa orau i roi cyngor ac efallai y bydd angen iddo benderfynu weithiau pa fath o drwydded tynnu dŵr[29] neu sawl trwydded tynnu dŵr y dylid gwneud cais amdanynt[30]. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, bydd yn rhoi gwybod i'r ceisydd

---

[29] Cafodd Deddf 1991 ei diwygio gan Ddeddf Dŵr 2003 er mwyn darparu ar gyfer tri math o drwydded: 'trwydded lawn', 'trwydded drosglwyddo' neu 'drwydded dros dro' (sy'n para am lai na 28 diwrnod). Mae 'trwydded lawn' yn rhoi hawl i'r deiliad dynnu dŵr a ddiogelir o dan y gyfraith o unrhyw drwyddedau diweddarach a roddir gan yr Asiantaeth ac mae angen y drwydded hon ar gyfer unrhyw weithgarwch tynnu dŵr sy'n para am 28 diwrnod neu fwy. Mae 'trwydded drosglwyddo' ar gael ar gyfer gweithgarwch tynnu dŵr sy'n para am 28 diwrnod neu fwy. Mae angen y drwydded hon i symud dŵr o un ffynhonnell gyflenwi i un arall, neu i ran arall o'r un ffynhonnell gyflenwi, wrth ymgymryd â gweithgareddau dihysbyddu mewn cysylltiad â gwaith cloddio, chwarela, peirianneg, adeiladu neu weithrediadau eraill, heb unrhyw ddefnydd yn y cyfamser.

Nid oes unrhyw hawliau gwarchodedig ar gyfer trwyddedau trosglwyddo o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 ac felly dyma fydd y drefn pan gaiff gweithgareddau tynnu dŵr a eithrir ar hyn o bryd eu rheoleiddio.

[30] Fel y nodir yn adran 36A o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991. O dan adran 36A, gall y Rheoleiddiwr ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n gwneud cais am un math o drwydded tynnu dŵr wneud cais am fath arall o drwydded yn lle hynny, neu gall grwpio sawl cais cysylltiedig gyda'i gilydd. Gall y sawl sy'n gwneud cais apelio yn erbyn penderfyniad y Rheoleiddiwr.

ei fod yn bwriadu trin cais am drwydded fel cais am drwydded sy'n wahanol i'r math y gwnaed cais amdani cyn iddo fynd ati i benderfynu ar y cais neu gyhoeddi'r cynnig. Ni chredwn y bydd trwyddedau llawn yn angenrheidiol nac yn ddymunol i reoli'r rhan fwyaf o drosglwyddiadau dŵr. Felly, ni ddisgwyliwn i'r sawl sy'n gwneud cais am drwyddedau ddefnyddio'r broses hon fel ffordd o sicrhau mwy o hawliau nag sydd ganddynt eisoes.

Rydym yn annog yn gryf y sawl sy'n gwneud cais i gyflwyno ceisiadau yn gynnar er mwyn caniatáu digon o amser i drafod y cais gyda'r Rheoleiddiwr. Os derbynnir cais tuag at ddiwedd y cyfnod gwneud cais, efallai na fydd y Rheoleiddiwr yn gallu cynnal y gwiriadau sydd eu hangen i ddilysu'r cais cyn diwedd y cyfnod hwnnw. Os bydd y cais yn ddiffygiol ac na ellir ystyried ei fod yn gais dilys, gallai'r ceisydd golli'r cyfnod trosiannol, sy'n golygu y bydd yn rhaid i'r gweithgarwch tynnu dŵr ddod i ben ar ddiwedd y cyfnod o ddwy flynedd a ganiateir ar gyfer gwneud cais a bydd yn rhaid cyflwyno cais o dan y weithdrefn drwyddedu safonol, sy'n golygu na chaiff y dull cyffyrddiad ysgafn yn seiliedig ar risg ei ddefnyddio i wneud penderfyniad.

### 3.5 Lleihau'r baich rheoleiddio cymaint â phosibl

Disgwyliwn i'r Rheoleiddiwr sicrhau bod cyn lleied o faich â phosibl ar y sawl sy'n gwneud cais am drwydded. Er enghraifft, disgwyliwn i'r Rheoleiddiwr wneud y canlynol:

- helpu tynwyr dŵr i leihau costau gweinyddol cymaint â phosibl drwy, er enghraifft, gysylltu ceisiadau i dynnu dŵr o'r un ffynhonnell gyflenwi[31];
- darparu ffurflenni cais sy'n caniatáu i dynwyr dŵr wneud cais i ymgymryd â gweithgareddau tynnu dŵr a eithriwyd yn flaenorol ar y cyd â gweithgarwch tynnu dŵr arfaethedig (amrywiadau i gynyddu'r gweithgarwch), a sicrhau bod prosesau mewnol ar waith sy'n cysoni'r ddwy broses gwneud cais hyn ac yn ystyried anghenion busnes[32];
- mabwysiadu dull hyblyg o drwyddedu sy'n seiliedig ar risg ac sy'n cwmpasu'r amrywiaeth eang o sefyllfaoedd y gall tynwyr dŵr eu hwynebu er mwyn osgoi beichiau neu reolaethau busnes diangen.

---

[31] Yn achos dŵr a dynnir ar gyfer gwaith cloddio, chwarela, peirianneg ac adeiladu, lle mae'r union fan lle y tynnir y dŵr yn newid dros amser o fewn safle, disgwyliwn i'r Rheoleiddiwr drwyddedu'r gweithgarwch hwn mewn ffordd a fydd hefyd yn lleihau'r angen am drwyddedau lluosog neu amrywiadau i drwyddedau cymaint â phosibl drwy, er enghraifft, gyfeirio at yr ardal waith bresennol fel y pwynt(iau) tynnu dŵr.

[32] Fel yr eglurwyd yn Adran 4.2, caiff elfen arfaethedig y gweithgarwch tynnu dŵr hwn ei hystyried gan y Rheoleiddiwr o dan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Tynnu a Chronni Dŵr) 2006.

### 3.6 Trefniadau iawndal

Gellir gwneud cais am iawndal[33] os bydd colled neu niwed yn deillio o'r ffaith bod cais i dynnu dŵr yn gyfreithlon[34], a wnaed o fewn y cyfnod cymhwyso, wedi'i wrthod neu ei gyfyngu, ac eithrio pan fydd angen ei wrthod neu ei gyfyngu er mwyn:

- diogelu'r amgylchedd rhag niwed difrifol[35];
- cymhwyso "llif nad oes modd ei ddefnyddio[36]" sylfaenol er mwyn gosod cyfyngiad ar y dŵr a dynnir adeg llif isel ac yn ystod sychder;
- adlewyrchu cyfyngiadau gweithredu cyfredol sydd eisoes ar waith e.e. deddfau camlesi, amodau cynllunio, dulliau o reoli'r dŵr a dynnir yn ystod cyfnod cymhwyso yn achos trwyddedau trosglwyddo nad ydynt yn nodi cyfeintiau;
- cymhwyso terfyn amser yn unol â pholisi cyfredol y Rheoleiddiwr.

Caiff unrhyw iawndal y mae'n rhaid ei dalu ei ariannu drwy ffyrdd presennol y Rheoleiddiwr o gynhyrchu incwm adnoddau dŵr a dylai ddefnyddio arian iawndal a gasglwyd eisoes neu, lle y bo angen, unrhyw arian iawndal pellach a gesglir[37][38].

Fel egwyddor gyffredinol, ni ddylai awdurdodau na sefydliadau cyhoeddus ddisgwyl hawlio iawndal oddi wrth awdurdodau eraill a ariennir yn gyhoeddus wrth arfer eu swyddogaethau statudol yn briodol. Cefnogwyd y dull gweithredu hwn gan y sawl yr ymgynghorwyd â nhw yn 2009. Felly, ni fydd yn rhaid i'r Rheoleiddiwr dalu iawndal os yw'r ceisydd o dan y darpariaethau trosiannol yn awdurdod cyhoeddus.

---

[33] Gall fod amgylchiadau eithriadol lle y caiff iawndal ei dalu. Mae'r rhain yn fwyaf tebygol o fod yn effeithio ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a niweidiwyd, lle mae dyletswyddau'r Rheoleiddiwr naill ai yn ei atal rhag rhoi trwyddedau neu'n golygu bod yn rhaid iddo bennu amodau mwy cyfyngol ond nid yw'n ystyried bod y niwed yn niwed difrifol.

[34] Pan fo amodau'r drwydded yn adlewyrchu caniatadau a hawliadau eraill, er enghraifft cyfyngiadau y cyfeirir atynt mewn Deddfau galluogi, amodau a nodir mewn caniatadau cynllunio neu amodau a bennir er mwyn atal unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol a nodir o dan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2003, gan na fydd hyn yn gyfystyr â cholled neu niwed.

[35] Mewn perthynas â safleoedd a ddynodir o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, mae niwed difrifol yn cynnwys achosion lle y cymhwysir yr egwyddor ragofalus gan nad oes gan y Rheoleiddiwr ddigon o dystiolaeth i ddangos na fyddai unrhyw effaith andwyol ar safleoedd a warchodir.

[36] Ni chaiff iawndal ei dalu os bydd y Rheoleiddiwr yn cymhwyso amod Qn95 neu amod llai cyfyngol mewn dalgylchoedd y tynnir gormod o ddŵr ohonynt, neu 75% o Qn99 pan fo'r llif yn cynnal yr amgylchedd.

[37] Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ystyried cynnig cymorth penodol i Cyfoeth Naturiol Cymru os bydd costau iawndal yn mynd yn fwy na'r hyn y gall y sefydliad ei dalu'n rhesymol o'i incwm adnoddau dŵr.

[38] Lle y bo angen, mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn defnyddio'r "Tâl Uned Gwella Amgylcheddol (EIUC)", sy'n elfen o'u taliadau tynnu dŵr, i gasglu arian iawndal.

Os bydd anghydfod ynghylch y penderfyniad trwyddedu neu'r math neu'r nifer o drwyddedau tynnu dŵr y dylid gwneud cais amdanynt, bydd gan y ceisydd yr hawl i apelio. Bydd y broses apelio yn gyson â'r broses apelio arferol ar gyfer trwyddedau tynnu dŵr[39].

[39] Adran 36A o'r Ddeddf Adnoddau Dŵr ar gyfer apeliadau yn erbyn y math o drwydded neu'r nifer o geisiadau am drwydded ac adran 43 o'r Ddeddf Adnoddau Dŵr ar gyfer apeliadau yn erbyn penderfyniad i roi neu wrthod trwydded.

# 4. Yr Amserlen a'r Camau Nesaf

## 4.1 Amserlen weithredu

Byddwn yn gwneud y newidiadau i'r eithriadau yn y system trwyddedu tynnu dŵr drwy gychwyn deddfwriaeth sylfaenol a thrwy is-ddeddfwriaeth.

Gwnaethom ymgynghori ar yr is-ddeddfwriaeth ddrafft ym mis Ionawr y llynedd fel rhan o'r broses ymgynghori. Byddwn yn mynd ati nawr i bennu'r rheoliadau hynny'n derfynol yn unol â'r polisi terfynol. Byddwn yn gosod y rheoliadau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU erbyn diwedd y flwyddyn hon.

Bydd y newidiadau i'r eithriadau yn dod yn weithredol, a bydd y cyfnod o ddwy flynedd ar gyfer gwneud cais am drwydded ar gyfer eithriadau a ddaw i ben yn dechrau, unwaith y bydd y rheoliadau yn dod i rym.

Gall gweithgarwch tynnu dŵr sydd wedi digwydd yn ystod y cyfnod cymhwyso barhau i fynd rhagddo heb drwydded nes y gwneir penderfyniad ynghylch y drwydded neu, os na chaiff cais ei wneud, nes bod y cyfnod gwneud cais yn dod i ben.

Bydd y Rheoleiddiwr yn ymgysylltu ymhellach â phob sector ac yn paratoi canllawiau ar gyfer y broses gwneud cais am drwydded cyn i'r rheoliadau ddod i rym, yn ystod y cyfnod gwneud cais a thu hwnt.

## 4.2 Gwaith pellach i gyflawni'r polisi

Bydd y Rheoleiddiwr yn paratoi canllawiau ar y broses o wneud cais am drwydded cyn i'r rheoliadau ddod i rym, yn ystod y cyfnod gwneud cais a thu hwnt. Bydd y Rheoleiddiwr yn parhau i ymgysylltu â thynwyr dŵr drwy gydol y broses gwneud cais a'r broses benderfynu.

Gall tynwyr dŵr gysylltu â swyddfeydd lleol y Rheoleiddiwr[40] i drafod eu hamgylchiadau unigol.

[40] Gall tynwyr dŵr yng Nghymru gysylltu â Chanolfan Cysylltiadau Cwsmeriaid Cenedlaethol Cyfoeth Naturiol Cymru i siarad â'r person cyswllt priodol ar: 0300 065 3000 neu enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

Gall tynwyr dŵr yn Lloegr gysylltu â Chanolfan Cysylltiadau Cwsmeriaid Cenedlaethol Asiantaeth yr Amgylchedd i siarad â'r person cyswllt priodol ar: 03708 506 506 neu enquiries@environment-agency.gov.uk

# Rhestr Termau

**Amodau tynnu dŵr:** Amodau a atodir i drwydded tynnu dŵr, er enghraifft, a all atal dŵr rhag cael ei dynnu neu leihau faint o ddŵr a dynnir drwy bennu gwerthoedd trothwy penodol (Llif Nad oes modd ei Ddefnyddio), cyfyngiad tymhorol neu ddyddiad dod i ben.

**Diffiniadau o Strategaethau Trwyddedu Tynnu Dŵr/Strategaethau Rheoli Tynnu Dŵr o Ddalgylch**

- Dŵr ar Gael: mae mwy na digon o ddŵr i ddiwallu anghenion yr amgylchedd.
- Gormod o Drwyddedau: gallai cyfanswm y dŵr a drwyddedir gael effaith andwyol ar yr amgylchedd. Os caiff yr holl ddŵr a drwyddedir ei dynnu, ni fydd digon o ddŵr ar gael ar gyfer yr amgylchedd.
- Tynnir gormod o ddŵr: nid oes digon o ddŵr i ddiwallu anghenion yr amgylchedd.

**Eithriadau:** Y gweithgarwch tynnu dŵr y gellir ymgymryd ag ef yn gyfreithlon (ac a ganiateir ar gyfer gweithgareddau risg isel yn y dyfodol) heb fod angen trwydded tynnu neu gronni dŵr.

**Llifau Nad oes modd eu Defnyddio (HoF):** Amod a atodir i drwydded tynnu dŵr sy'n nodi y bydd angen i dynnwr dŵr roi'r gorau i dynnu dŵr neu leihau faint o ddŵr y mae'n ei dynnu os bydd llif (yr afon) yn cyrraedd y trothwy a nodir yn y drwydded neu'n mynd yn is na hynny.

**Niwed difrifol:** Nodir yr egwyddorion y byddai'r Rheoleiddiwr yn eu defnyddio i asesu niwed difrifol yn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2012 ac ymateb y Llywodraeth: https://www.gov.uk/government/consultations/the-water-act-2003-withdrawal-of-compensation-on-the-grounds-of-serious-damage a'r eglurhad a roddwyd yn yr ymgynghoriad ar Awdurdodiadau Newydd yn 2016.

**Qn95 a Qn99:** Derbynnir yn gyffredinol mai Qn95 yw'r llif naturiol y rhagorir arno 95% o'r amser. Yn yr un modd, Qn99 yw'r llif naturiol y rhagorir arno 99% o'r amser. 75% o Qn99 yw 75% o lif Qn99.

**Rhaglen Adfer Dulliau Cynaliadwy o Dynnu Dŵr:** Fel rhan o'r rhaglen, mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn adolygu trwyddedau tynnu dŵr i ganfod a yw gweithgareddau tynnu dŵr yn achosi problemau amgylcheddol. Pan fyddant yn canfod bod gweithgarwch tynnu dŵr trwyddedig yn broblem, byddant yn gweithio gyda thynwyr dŵr i ddod o hyd i atebion.

**Rheoleiddiwr:** Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr.

**Tâl Uned Gwella Amgylcheddol (EIUC):** Elfen o'r tâl blynyddol yng nghynlluniau codi tâl y Rheoleiddiwr (sy'n daladwy gan dynwyr dŵr) a ddefnyddir weithiau i dalu costau iawndal a delir i dynwyr dŵr pan gaiff eu trwyddedau tynnu dŵr eu hamrywio'n orfodol neu eu

diddymu er mwyn lleihau'r risg o niwed amgylcheddol a achosir drwy dynnu gormod o ddŵr.

**Trwydded tynnu dŵr:** Yr awdurdodiad a roddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd i dynnu dŵr o ffynhonnell dŵr wyneb neu ddŵr daear. Ar hyn o bryd, mae angen trwyddedau pan fo mwy nag 20 metr ciwbig o ddŵr (tua 4,400 o alwyni) yn cael ei dynnu bob dydd o'r ffynhonnell gyflenwi, onid yw eithriad penodol yn gymwys.

Cafodd Deddf Adnoddau Dŵr 1991 ei diwygio gan Ddeddf Dŵr 2003 er mwyn darparu ar gyfer tri math o drwydded: 'trwydded lawn', 'trwydded drosglwyddo' neu 'drwydded dros dro' (sy'n para am lai na 28 diwrnod). Mae 'trwydded lawn' yn rhoi hawl i'r deiliad dynnu swm penodol o ddŵr a ddiogelir o dan y gyfraith o unrhyw drwyddedau diweddarach a roddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd ac mae angen y drwydded hon ar gyfer unrhyw weithgarwch tynnu dŵr sy'n para am 28 diwrnod neu fwy. Mae 'trwydded drosglwyddo' ar gael ar gyfer gweithgarwch tynnu dŵr sy'n para am 28 diwrnod neu fwy. Mae angen y drwydded hon i symud dŵr o un ffynhonnell gyflenwi i un arall, neu i ran arall o'r un ffynhonnell gyflenwi, wrth ymgymryd â gweithgareddau dihysbyddu mewn cysylltiad â gwaith cloddio, chwarela, peirianneg, adeiladu neu weithrediadau eraill, heb unrhyw ddefnydd yn y cyfamser.

**Tynnu dŵr:** Tynnu dŵr o ffynhonnell dŵr wyneb neu ddŵr daear.